y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

# Diweddariad Tystiolaeth y Gymraeg: Ebrill 2024

Cyngor Sir Caerfyrddin

10/05/24

# Diweddariad Tystiolaeth y Gymraeg

IAITH Cyf.

Kathryn Jones ac Owain Wyn

**IAITH Cyf.**

Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DB

**Ff** 01239 711668

**E** post@iaith.cymru

www.iaith.cymru

## Tabl cynnwys

Cyflwyniad ........................................ 1

Trosolwg o Ddata Perthnasol y Cyfrifiad ........................................ 1

Crynodeb o'r Senario Dybiedig ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo Drafft ........................................ 5

Adolygiad o Ragdybiaethau ar gyfer y Strategaeth *Dwf* a Ffefrir ........................................ 9

Tystiolaeth Arall ........................................ 17

Adolygiad o'r Rhagdybiaethau ar gyfer y Strategaeth *Ofodol* a Ffefrir ........................................ 18

Sut fyddai hyn wedi effeithio ar Asesiad 2022 ac a fyddai'r canlyniad yn wahanol? ........................................ 21

Goblygiadau i statws y Sir fel Ardal Lle Mae Sensitifrwydd a Phwysigrwydd Ieithyddol ........................................ 25

## Ffigurau a thablau

# Ffigurau

Ffigur 1: Cyfrifiad 2021 o Ddwysedd Siaradwyr Cymraeg ym Mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin (Lefel Ward)... 3

Ffigur 2: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Ffigur A 2.4-4: Newid yng nghanran disgyblion Sir Gaerfyrddin 5-11 oed ac 11-15 oed yn ôl gallu yn y Gymraeg rhwng 2018/2019 a 2021/2022............ 9

Ffigur 3: Newid yng nghanran disgyblion Sir Gaerfyrddin 5-11 oed ac 11-15 oed yn ôl gallu yn y Gymraeg rhwng 2018/2019 a 2022/2023 ........................................................................................... 9

Ffigur 4: Amcanestyniadau o Gyran y Bobl oedd yn Byw mewn Cyfeiriad Blaenorol yn y DU 12 mis cyn diwrnod Cyfrifiad 2021 (gan gynnwys cyfeiriadau yn Sir Gaerfyrddin)............................................. 17

Ffigur 5: Matrics a Sgôr ar gyfer Strategaeth Dwf a Ffefrir y CDLl Diwygiedig Adneuo Drafft.................... 22

Ffigur 6: Matrics a Sgôr ar gyfer Strategaeth Ofodol a Ffefrir yr 2il CDLl Diwygiedig Adneuo .................. 25

# Tablau

Tabl 1: Newidiadau i'r Canran Siaradwyr Cymraeg ar Lefel LSOA............................................................ 4

Tabl 2: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl 2.4: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth– Newid yng ngallu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin dros amser ....................................................................... 5

Tabl 3: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.4-4: Disgyblion 5-15 oed gyda gallu yn y Gymraeg 2018/2019....................................................................................................................... 7

Tabl 4: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.4-5: Disgyblion 5-15 oed gyda gallu yn y Gymraeg (data CYBLD 2021/2022) ............................................................................................... 8

Tabl 5: Disgyblion 5-15 oed gyda gallu yn y Gymraeg (data CYBLD PLASC 2022/2023) .............................. 8

Tabl 6: Effaith data cyfrifiad 2021 ar dwf yn ôl y taflwybr yn nifer y siaradwyr Cymraeg, yn ôl carfan oedran ........................................................................................................................... 12

Tabl 7: Cyfrifiad 2021 Sgiliau Cymraeg yn ôl Gwlad Enedigol ......................................................... 13

Tabl 8: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.2-5: Amcangyfrif bras o effaith mudo net ar nifer y siaradwyr Cymraeg........................................................................................................ 15

Tabl 9: Amcangyfrifon o Fewnfudo Net yn ôl Grŵp Oedran am 12 mis cyn Diwrnod Cyfrifiad 2021 ........ 16

Tabl 10: Cymhariaeth 5 mlynedd o Werthiannau Eiddo Preswyl a Thai a Gwblhawyd............................. 18

Tabl 11: Amcangyfrif o nifer y siaradwyr Cymraeg fesul Clwstwr a Newidiadau ers Cyfrifiad 2011 .......... 19

# Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (yr Asesiad) ar gyfer yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo. Paratowyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg cyn cyhoeddi Cyfrifiad 2021 o ddata poblogaeth yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd yr Asesiad (Asesiad wedi'i ddiweddaru o hyn ymlaen) yn fersiwn wedi'i diweddaru o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg o'r CDLl diwygiedig adneuo drafft cyntaf a gynhyrchwyd yn 2019. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried canlyniadau manwl Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022.

2. Mae'r briff yn gofyn i ni ddarparu'r canlynol:
   - trosolwg o Ddata'r Cyfrifiad i'r graddau y mae'n berthnasol i'r Asesiad ac a allai'r data effeithio ar ei ganfyddiadau;
   - nodi a oes unrhyw ddata ar goll o'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi hyd yn hyn, yn enwedig mewn perthynas â data mudo a lle bo'n bosibl defnyddio ffynonellau gwybodaeth neu ragdybiaethau amgen;
   - ystyried a yw'r data ychwanegol yn effeithio ar ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a sut y gallai'r asesiad fod yn wahanol; a
   - thrafod unrhyw oblygiadau ar y dull polisi, yn enwedig mewn perthynas â nodi'r sir gyfan fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol.

# Trosolwg o Ddata Perthnasol y Cyfrifiad

3. Cyhoeddwyd canlyniadau manwl Cyfrifiad 2021 o'r boblogaeth ar 6 Rhagfyr 2022 yn fuan ar ôl cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr Ail CDLl Diwygiedig Adneuo. Roedd y cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i oedolion hunanasesu eu sgiliau iaith eu hunain, neu sgiliau eraill fel plant ynghylch a oeddent yn gallu deall Cymraeg, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Gallai pobl ddewis un sgil, sgiliau lluosog, neu ddim sgiliau Cymraeg.


4. Dyma'r prif benawdau ar gyfer Sir Gaerfyrddin o'r data a gyhoeddwyd yn 2021:

- Dywedodd 72,838 o breswylwyr arferol 3 oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 39.8% o boblogaeth y sir tair oed a throsodd. Mae hyn yn ostyngiad o 5,210 o bobl tair oed a throsodd ers Cyfrifiad 2011 ac yn ostyngiad o 4.0 pwynt canran.
- Gall 20,036 pellach (ychydig o dan 11%) o breswylwyr 3 oed a throsodd "ddeall Cymraeg llafar yn unig".
- Nid oes gan gyfanswm o 85,287 o breswylwyr 3 oed a throsodd unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, sy'n gynnydd o 4.8% ers 2011.
- Er y bu gostyngiad yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y rhan fwyaf o wardiau, bu cynnydd bach yn y wardiau canlynol:
  - Y Betws
  - Glan-y-Môr
  - Gors-las
  - Hengoed
  - Llanddarog
  - Llangynnwr
  - Llangyndeyrn
  - San Clêr.
- Ar lefel Ward Etholiadol, mae canran y preswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio rhwng 18.9% ar gyfer Tyisha i 60.7% ar gyfer Pontyberem.
- Mae 14 ward etholiadol (allan o 51) lle mae dros 50% o'r preswylwyr arferol tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o wardiau dwysedd uwch wedi'u leoli yn Nyffryn Aman ac ym mhen uchaf Cwm Gwendraeth ac ardaloedd gwledig mwy gogleddol Abergwili a Llanfihangel-ar-arth.
- Mae 13 ward lle mae llai na thraean o'r preswylwyr arferol yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r wardiau dwysedd is wedi'u lleoli yn Llanelli, ar arfordir deheuol Pen-bre a Thalacharn a Llanymddyfri.
- Cofnododd rhieni/gwarcheidwaid fod gostyngiad o 500 wedi bod ymhlith plant a phobl ifanc 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2011. Cofnododd pob grŵp oedran dros 50 oed ostyngiad sylweddol yn y

rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg gyda'r gostyngiad mwyaf yn digwydd yn y grŵp oedran 65 i 74.

Mae **Ffigur 1** yn atgynhyrchu dadansoddiad mewnol a baratowyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn dangos canran y siaradwyr Cymraeg ar lefel Ward Etholiadol

Ffigur 1: Cyfrifiad Poblogaeth Sir Gaerfyrddin Cyfrifiad 2021 Dwysedd siaradwyr Cymraeg (Lefel ward)




Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin (Ebrill 2024)

5. Oherwydd newidiadau i ffiniau wardiau etholiadol, nid yw'n bosibl cymharu newidiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021 ar lefel Ward. Mae **Tabl 1** yn atgynhyrchu dadansoddiad mewnol a baratowyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n dangos y newid canrannol o ran dwysedd siaradwyr Cymraeg ar lefel ACEHI rhwng 2011 a 2021.

## Tabl 1: Newidiadau i Ganran y Siaradwyr Cymraeg ar lefel ACEHI

| % Siaradwyr Cymraeg wrth Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r ardal | 2011 | 2021 | % newid | Enw'r ardal | 2011 | 2021 | % newid |
| Glanaman 1 | 59.4 | 47.6 | -11.8 | Cilycwm | 46.0 | 41.9 | -4.1 |
| Glanaman 2 | 60.1 | 48.6 | -11.5 | Glanymor 2 | 22.1 | 18.0 | -4.1 |
| Llanybydder 2 | 61.6 | 50.7 | -10.9 | Llansteffan | 44.2 | 40.1 | -4.1 |
| Llangyndeyrn 1 | 56.4 | 45.6 | -10.8 | Gorllewin Tref Caerfyrddin | 41.1 | 37.1 | -4.0 |
| Cwarter Bach 1 | 71.8 | 62.2 | -9.6 | Llanismel 1 | 56.8 | 52.8 | -4.0 |
| Cwarter Bach 2 | 65.8 | 56.8 | -9.0 | Llanybydder 1 | 56.4 | 52.4 | -4.0 |
| Llannon 1 | 67.8 | 59.0 | -8.8 | Pembre 2 | 26.8 | 22.9 | -3.9 |
| Pontyberem 2 | 68.8 | 60.0 | -8.8 | Gogledd Tref Caerfyrddin 3 | 37.9 | 34.0 | -3.9 |
| Llanegwad 2 | 44.6 | 36.0 | -8.6 | Penygroes 1 | 59.1 | 55.3 | -3.8 |
| Llangadog | 55.7 | 47.2 | -8.5 | Llanismel 2 | 41.0 | 37.4 | -3.6 |
| Trelech | 53.5 | 45.0 | -8.5 | De Tref Caerfyrddin 2 | 41.4 | 37.9 | -3.5 |
| Llannon 2 | 68.6 | 60.5 | -8.1 | Rhydaman 2 | 51.0 | 47.5 | -3.5 |
| Penygroes 2 | 65.6 | 57.5 | -8.1 | Bigyn 3 | 25.1 | 21.7 | -3.4 |
| Saron 1 | 54.1 | 46.1 | -8.0 | Llanymddyfri 2 | 42.0 | 38.6 | -3.4 |
| Garnant | 58.5 | 50.7 | -7.8 | Swiss Valley | 33.1 | 29.8 | -3.3 |
| Llangeler 1 | 55.1 | 47.4 | -7.7 | Cynwyl Gaeo | 46.7 | 43.4 | -3.3 |
| Cydweli 2 | 45.3 | 37.7 | -7.6 | Lliedi 1 | 25.5 | 22.2 | -3.3 |
| Hendy 2 | 44.5 | 37.4 | -7.1 | Betws | 53.4 | 50.1 | -3.3 |
| Sanclêr 2 | 54.7 | 47.7 | -7.0 | Llwynhendy 1 | 25.7 | 22.5 | -3.2 |
| Llangyndeyrn 2 | 61.1 | 54.3 | -6.8 | Cenarth | 48.8 | 45.6 | -3.2 |
| Llwynhendy 2 | 29.6 | 22.8 | -6.8 | Gogledd Tref Caerfyrddin 4 | 47.9 | 44.9 | -3.0 |
| Bynea 2 | 31.1 | 24.7 | -6.4 | Manordeilo and Salem | 48.2 | 45.2 | -3.0 |
| Llandybie 1 | 57.1 | 50.7 | -6.4 | Llangynnwr 1 | 50.5 | 47.6 | -2.9 |
| Gorslas 1 | 67.2 | 61.1 | -6.1 | Porth Tywyn 3 | 35.1 | 32.4 | -2.7 |
| Saron 2 | 54.7 | 48.6 | -6.1 | Llwynhendy 3 | 22.8 | 20.1 | -2.7 |
| Llangennech 2 | 37.6 | 31.6 | -6.0 | Llanegwad 1 | 60.4 | 57.7 | -2.7 |
| Llangeler 2 | 53.8 | 48.0 | -5.8 | Felinfoel | 28.1 | 25.5 | -2.6 |
| Trimsaran 2 | 45.7 | 40.0 | -5.7 | Llanymddyfri 1 | 38.8 | 36.2 | -2.6 |
| Llanfihangel Aberbythych | 51.6 | 46.0 | -5.6 | Lliedi 2 | 35.4 | 33.0 | -2.4 |
| Tyisha 2 | 22.9 | 17.3 | -5.6 | Llanfihangel-ar-Arth 2 | 58.2 | 56.1 | -2.1 |
| Cydweli 1 | 43.3 | 37.8 | -5.5 | Porth Tywyn 1 | 32.7 | 30.6 | -2.1 |
| Cynwyl Elfed 2 | 56.0 | 50.5 | -5.5 | Llanddarog | 57.8 | 55.7 | -2.1 |
| Gorllewin Tref Caerfyrddin 1 | 31.6 | 26.1 | -5.5 | Hengoed 2 | 32.9 | 30.9 | -2.0 |
| Llanfihangel-ar-Arth 1 | 56.8 | 51.3 | -5.5 | Llangennech 1 | 43.5 | 41.6 | -1.9 |
| Hendy-gwyn ar Daf | 42.4 | 37.0 | -5.4 | Porth Tywyn 2 | 28.9 | 27.0 | -1.9 |
| Llandeilo 2 | 48.1 | 42.7 | -5.4 | Gogledd Tref Caerfyrddin 1 | 34.1 | 32.3 | -1.8 |
| Trimsaran 1 | 55.2 | 50.0 | -5.2 | Llanboidy | 48.7 | 47.4 | -1.3 |
| Hendy 1 | 43.2 | 38.1 | -5.1 | Llangennech 3 | 38.4 | 37.2 | -1.2 |
| Lacharn 1 | 24.2 | 19.2 | -5.0 | Elli 2 | 24.7 | 23.6 | -1.1 |
| Llandeilo 1 | 52.4 | 47.4 | -5.0 | Bigyn 1 | 26.1 | 25.1 | -1.0 |
| Tycroes | 47.1 | 42.1 | -5.0 | Glanymor 1 | 18.8 | 17.8 | -1.0 |
| Gogledd Tref Caerfyrddin 2 | 30.4 | 25.5 | -4.9 | Lliedi 3 | 24.6 | 23.6 | -1.0 |
| Pontamman 1 | 50.6 | 45.8 | -4.8 | Dafen 1 | 28.3 | 27.4 | -0.9 |
| Glyn | 58.9 | 54.1 | -4.8 | Abergwili | 55.7 | 55.1 | -0.6 |
| De Tref Caerfyrddin 1 | 35.5 | 30.8 | -4.7 | Pembre 1 | 34.9 | 34.3 | -0.6 |
| Llandybie 2 | 56.9 | 52.2 | -4.7 | Bigyn 4 | 15.6 | 15.0 | -0.6 |
| Llannon 3 | 54.4 | 49.7 | -4.7 | Tyisha 1 | 19.4 | 19.2 | -0.2 |
| Dafen 2 | 25.8 | 21.2 | -4.6 | Gorllewin Tref Caerfyrddin | 38.8 | 38.8 | 0.0 |
| Tyisha 3 | 22.3 | 17.7 | -4.6 | Hengoed | 32.5 | 32.7 | 0.2 |
| Gorslas 2 | 60.2 | 55.8 | -4.4 | Glanymor 4 | 16.6 | 16.9 | 0.3 |
| Cynwyl Elfed 1 | 52.6 | 48.2 | -4.4 | Sanclêr 1 | 46.6 | 46.9 | 0.3 |
| Pontyberem 1 | 65.8 | 61.4 | -4.4 | Elli 1 | 33.2 | 33.6 | 0.4 |
| Rhydaman 1 | 48.6 | 44.2 | -4.4 | Lacharn 2 | 20.1 | 21.3 | 1.2 |
| Pontamman 2 | 55.7 | 51.5 | -4.2 | Llangynnwr 2 | 45.9 | 48.4 | 2.5 |
| Bigyn 2 | 25.8 | 21.6 | -4.2 | Glanymor 3 | 18.7 | 23.4 | 4.7 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin (Ebrill 2024)

6. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn ystyried goblygiadau data Cyfrifiad 2021 ar yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y CDLl diwygiedig Adneuo.

# Crynodeb o'r Senario Dybiedig ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo ~~Drafft.~~

7. Mae'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo Drafft (Asesiad wedi'i ddiweddaru) yn seiliedig ar Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae hyn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r 2il CDLl diwygiedig a'r prif fater i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yw "*A fydd y CDLl diwygiedig yn annog twf y Gymraeg a'i diwylliant?*”

8. Yn ein Hasesiad wedi'i ddiweddaru (2022) gwnaethom gytuno â'r farn a fynegwyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig bod **posibilrwydd realistig** (ein pwyslais) bod nifer a chanran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sir wedi tyfu ers 2011. Mae **Tabl 2** yn atgynhyrchu Tabl 2.4 o'r adroddiad ac yn dangos y gallu i siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a dynnwyd o dablau perthnasol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar Stats Cymru.

Tabl 2: Yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl 2.4: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Newid yn Sir Gaerfyrddin o ran gallu yn y Gymraeg dros amser

| Dyddiad yr Arolwg | Pawb yn 3 oed neu drosodd | Yn gallu siarad Cymraeg | Canran | Newid (%) 2011-2018 | Newid (%) 2018 – 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2011 | 174,600 | 81,500 | 46.7 | | |
| Mawrth 2018 | 177,200 | 90,700 | 51.2 | 9.6 | |
| Mawrth 2022 | 176,200 | 95,200 | 54.0 | | 5.4 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth Blynyddol Stats Cymru – gallu yn y Gymraeg

9. Rydym yn rhoi cafeat ar y farn hon gan nodi bod canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrifon arolwg sy'n seiliedig ar samplau ac felly, mae'r lefelau hyder yn gallu amrywio, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol. Yn y gorffennol fel arfer mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ynghylch gallu yn y Gymraeg yn uwch na rhai'r Cyfrifiad.

10. Wrth i'r broses o baratoi'r CDLl fynd yn ei blaen mae'r ISA sy'n cyd-fynd â'r CDLl drafft wedi'i gynllunio i gael ei ailedrych a'i adolygu. Cyhoeddwyd Atodiad i'r ISA i'w ymgynghori ym mis Chwefror 2024 sy'n cynnwys newidiadau ffocws arfaethedig i'r ISA o ganlyniad i ystyried sylwadau blaenorol a diwygiadau eraill a arweinir gan swyddogion.

Mae'r newidiadau â ffocws yn cynnwys cyfeirio ac ystyried canlyniadau'r Cyfrifiad 2021 o ystadegau poblogaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad mae Atodiad 1 sy'n cynnwys rhestr o newidiadau â ffocws arfaethedig yn cynnwys cynnig diwygio Tabl 5 gwaelodlin ISA11 yr Iaith Gymraeg o "wella" i "leihau".

11. Cefnogwyd y farn a fynegwyd yn yr AEIG ar y pryd bod "posibilrwydd realistig" o dwf gan y dystiolaeth a ddarparwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor 2022 – 2032. Uchelgais Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw y bydd 75% o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2033. Mae hyn wedi ei seilio ar darged bod 75% o ddisgyblion oed Meithrin (3-4 oed) a 78.5% o ddisgyblion oed Derbyn (4-5 oed) yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2033. Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, felly, yr uchelgais yw y byddai 698 yn fwy o ddisgyblion y flwyddyn yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r ffigwr llinell sylfaen ar gyfer 2021, gan adeiladu ar y cynnydd o 4.5 pwynt canran (tua 85 o ddisgyblion ychwanegol) a gyflawnwyd rhwng 2018 a 2021. Erbyn 2033, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi mynd trwy system addysg Sir Gaerfyrddin, roedd yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) yn amcangyfrif bod cyfran y siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn hynod debygol o fod o leiaf 75%.

12. Yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022), gwnaethom adrodd yr amcangyfrifir mai 26,158 fydd nifer amcanol y disgyblion rhwng 3-15 oed yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033. Pe bai'r targed o 75% yn cael ei gyrraedd, mae hyn yn awgrymu bod posibilrwydd realistig y bydd 26,158 (* 75% = 19,618) o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gynnydd gros o 4,104 (19,618 – 15,414) yn fwy na'r ffigwr a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.

13. Yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022), y rhagdybiaeth a wneir ar gyfer y taflwybr llinell sylfaen (Taflwybr Llywodraeth Cymru) yw y bydd 55% o ddisgyblion 15 oed yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2022. Yn achos Sir Gaerfyrddin byddai hyn yn (26,158 * 55% = 14,387). Mae'r gwahaniaeth yn gynnydd gros o 19,618 – 14,387 = 5,231.

**Preswylwyr 3 – 15 oed**

14. Mae casglu data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), a gofnodir bob mis Ionawr, yn caniatáu inni fonitro a diweddaru'r sefyllfa ynghylch disgyblion 5 – 15 oed

a'u gallu yn y Gymraeg, fel y nodwyd gan eu rhieni. Er bod angen trin y data hwn yn ofalus o ran ei ddibynadwyedd, mae'n rhoi arwydd o lefelau canfyddedig rhieni o ruglder eu plant yn y Gymraeg. Mae **Tabl 3** (yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.4-4) yn crynhoi'r sefyllfa ar gyfer disgyblion Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2019 sy'n cyfateb agosaf at linell sylfaen yr Ail CDLl Adneuo.

Tabl 3: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.4-4: Disgyblion 5 – 15 oed sydd â gallu[1] yn y Gymraeg 2018/2019

| Data PLASC Sir Gaerfyrddin 2018/2019 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau oedran | Rhugl yn y Gymraeg | | Ddim yn rhugl yn y Gymraeg | | Methu siarad Cymraeg | | Cyfanswm | Gallu (Rhugl + ddim yn rhugl) | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Nifer | Canran |
| **5 i 11** | 4,855 | 39.8% | 3,330 | 27.3% | 4,020 | 32.9% | 12,205 | 8,185 | 67.1% |
| **11 i 15** | 4,075 | 42.2% | 3,190 | 33.1% | 2,380 | 24.7% | 9,645 | 7,265 | 75.3% |
| **Cyfansymau** | **8,930** | **40.9%** | **6,520** | **29.8%** | **6,400** | **29.3%** | **21,850** | **15,450** | **70.7%** |

Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru Ionawr 2018/19[2]

15. Er ei bod yn anodd cymharu preswylwyr arferol rhwng 3 a 15 oed ar adeg Cyfrifiad 2011 (nifer yr holl breswylwyr arferol 26,733) â chofrestri ysgolion (disgyblion 5-15 oed), awgrymodd data CYBLD a gyflwynwyd yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) (gweler **Tabl 3**) fod y gallu i siarad Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol o 57.6% (data Cyfrifiad 2011) i 70.7% (data CYBLD 2018/19) yn erbyn cefndir o boblogaeth oedran ysgol sy'n gostwng.

16. Atgyfnerthwyd y duedd hon gan gasgliadau CYBLD ar gyfer 2021/22 a oedd yn dangos bod 88.6% o ddisgyblion cynradd ac 80.5% o ddisgyblion uwchradd yn gallu siarad Cymraeg (**Tabl 4**). Er bod gostyngiad wedi bod ers 2021/22, mae data CYBLD 2022/2023 yn dal i ddangos bod 85% o ddisgyblion cynradd a 79.4% o ddisgyblion uwchradd yn gallu siarad Cymraeg fel y dangosir yn **Nhabl 5**.

[1] 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni

[2] 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' & 'Siarad Cymraeg Gartref', asesiad rhieni, gan ddisgyblion o oed 5 neu drosodd mewn ysgolion gynradd yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru) a 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' & 'Siarad Cymraeg Gartref', asesiad rhieni, gan ddisgyblion 11-15 oed mewn ysgolion uwchradd yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru). Mae'r sgôr Gallu'n cynnwys disgyblion sy'n 'rhugl yn y Gymraeg' a'r rhai 'nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg'. Mae'r data'n cynnwys pob disgybl sydd wedi'i gategoreiddio gan rieni fel "Amherthnasol"

Tabl 4: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.4-5: Disgyblion 5 – 15 oed sydd â'r gallu[3] yn y Gymraeg (data CYBLD 2021/2022)

| Data PLASC Sir Gaerfyrddin 2021/2022 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau oedran | Rhugl yn y Gymraeg | | Ddim yn rhugl yn y Gymraeg | | Methu siarad Cymraeg | | Cyfanswm | Gallu (Rhugl + ddim yn rhugl) | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Nifer | Canran |
| 5 i 11 | 4,175 | 34.7% | 6,485 | 53.9% | 1,370 | 11.4% | 12,030 | 10,660 | 88.6% |
| 11 i 15 | 4,265 | 42.3% | 3,845 | 38.2% | 1,965 | 19.5% | 10,075 | 8,110 | 80.5% |
| Cyfansymau | 8,440 | 38.2% | 10,330 | 46.7% | 3,335 | 15.1% | 22,105 | 18,770 | 84.9% |

Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru 2021/2022

Tabl 5: Disgyblion 5 – 15 oed sydd â'r gallu[4] yn y Gymraeg (data CYBLD 2022/2023)


| Data PLASC Sir Gaerfyrddin 2022/2023 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau oedran | Rhugl yn y Gymraeg | | Ddim yn rhugl yn y Gymraeg | | Methu siarad Cymraeg | | Cyfanswm | Gallu (Rhugl + ddim yn rhugl) | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Nifer | Canran |
| 5 i 11 | 3,875 | 32.5% | 6,270 | 52.5% | 1,790 | 15.0% | 11,935 | 10,145 | 85.0% |
| 11 i 15 | 4,240 | 41.0% | 3,980 | 38.5% | 2,130 | 20.6% | 10,350 | 8,220 | 79.4% |
| Cyfansymau | 8,115 | 36.4% | 10,250 | 46.0% | 3,920 | 17.6% | 22,285 | 18,365 | 82.4% |

Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru 2022/2023

17. Yn gyffredinol, mae nifer a chyfran y disgyblion 5-15 oed nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng ers 2018/19 fel y dangosir yn **Ffigurau 2 a 3**. Fodd bynnag, mae niferoedd cyffredinol disgyblion 5 -15 oed sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn achos pryder gan fod y grŵp hwn wedi gostwng 490 o 8,930 (40.0%) yn 2018/19 i 8,440 (38.2%) yn 2021/22 ac 8,115 (36.4%) yn 2022/23. Mae ymchwil yn dangos bod plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref yn debygol o fod yn rhai sy'n defnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac felly, gallai adlewyrchu dirywiad yng ngwytnwch yr iaith o ran defnydd yn y gymuned.
18. Mae gallu a rhuglder y garfan yn cynyddu gydag oedran, o grwpiau oedran ysgol gynradd i ysgol uwchradd (**Ffigurau 2 a 3**). Mae hyn yn argoeli'n dda yn nhermau strategaeth twf a gofodol sydd ag uchelgais i gadw mwy o bobl ifanc a thyfu'r Gymraeg yn un o'i phrif nodau.


[3] 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni
[4] 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni

Ffigur 2: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Ffigur A 2.4-4: Newid o ran canran y disgyblion 5-11 oed ac 11-15 oed yn Sir Gaerfyrddin yn ôl gallu i siarad Cymraeg rhwng 2018/2019 a 2021/2022




Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019 a 2022

Ffigur 3: Newid o ran canran y disgyblion 5-11 oed ac 11-15 oed yn Sir Gaerfyrddin yn ôl gallu i siarad Cymraeg rhwng 2018/2019 a 2022/2023




Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019 a 2023

# Adolygiad o Ragdybiaethau ar gyfer y Strategaeth *Dwf* a Ffefrir

19. Mae Strategaeth Dwf a Ffefrir Sir Gaerfyrddin yn mabwysiadu'r Amcanestyniad sy'n Seiliedig ar Duedd Deng Mlynedd ar sail adroddiad Tai a Thwf Economaidd Turley a Chyfradd Eiddo Gwag y Dreth Gyngor o 3.8%.[5] Mae'r amcanestyniad hwn yn rhagweld y bydd y boblogaeth 3 oed a throsodd yn 202,036 erbyn 2033 - cynnydd o 14,468 a ragwelir yn y boblogaeth. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ragdybiaeth y Strategaeth a Ffefrir o ffigur gofyniad tai o 8,882 o gartrefi (cyfartaledd o +588 y flwyddyn), a gofyniad swyddi y flwyddyn o 276[6].

---

[5]2il CDLl Adneuo Diwygiedig (Chwefror 2023), para. 8.7

[6] Yn seiliedig ar Turley (Hydref 2022) *Adroddiad Tai a Thwf Economaidd Sir Gaerfyrddin.*

20. I grynhoi, cyfrifir taflwybr Cymraeg 2050 LlC ar gyfer twf siaradwyr Cymraeg gan ddefnyddio prif amcanestyniad poblogaeth LlC 2014 o 22.5%.[7] Gan dybio'r un rhagdybiaethau ar gyfer twf siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gwnaethom dybio'r sefyllfa ganlynol yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022):

*"Byddai cymhwyso'r un newid (22.5%) yn y ganran o'r boblogaeth 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg i'r newid amcanestynedig yn y ffigwr canrannol cyfansymiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn arwain o bosibl at dwf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd i (78,048 *22.5%) = 95,608.*

*Yn seiliedig ar ragdybiaeth Prif Amrywiolion LlC14 a ddefnyddir yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifedig o'r boblogaeth 14 oed a throsodd â'r gallu i siarad Cymraeg o 52.0%. Mae hyn yn cymharu â 43.9% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011."*

21. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru wedi cael eu diweddaru ers cyhoeddi Adroddiad Taflwybr Cymraeg 2050 - y diweddaraf yw amcanestyniadau LlC2018. Gan dybio y byddai cyfran y boblogaeth 3 oed a throsodd yn debyg i gyfran y llinell sylfaen (97.24%), byddai hyn yn rhoi amcanestyniad poblogaeth 3 oed a throsodd o 196,460 (erbyn 2033). Byddai hyn yn golygu mai'r gyfran o holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin tair oed a throsodd sydd â'r gallu i siarad Cymraeg yw (95,608 /196,460) = 48.7%.

22. Effaith defnyddio prif amcanestyniad LlC2018 fyddai gostyngiad o 2.19% pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg nag a fyddai'n cael ei wireddu o dan y senario taflwybr hwn (50.8%) a gostyngiad o 3.3 phwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg nag a fyddai'n cael ei wireddu o dan senario taflwybr poblogaeth LlC14 (52.0%).

23. Mae'r CDLl Diwygiedig Adneuo yn mabwysiadu'r Amcanestyniad sy'n Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd. Crynhowyd ein casgliadau yn ymwneud â mabwysiadu'r Senario Twf Amcanestyniad sy'n Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd a Ffefrir ar gyfer y taflwybr llinell sylfaen Cymraeg fel:

*"Yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch nodweddion mewnfudwyr o Gyfrifiad 2011, y newid net yn ffigyrau senarios poblogaeth ar gyfer Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd 2022 o gymharu â LlC18 a chyfradd llwyddiant*

[7] Mae Taflwybr Cymraeg 2050 LlC yn seiliedig ar Brif Amrywiolion 2014.

*Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, mae'n bosibl y gallai niferoedd siaradwyr Cymraeg fod yn uwch na Thaflwybr Llywodraeth Cymru:*

*Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed = 95,608 + 5231-3,194 + 439 = 98,084*

*Canran y siaradwyr Cymraeg 3+ oed = 98,084 rhannu â 196,460 = 49.9%*

*Mae hyn yn awgrymu posibilrwydd realistig o 0.9 pwynt canran o leihad o gymharu â senario Taflwybr LlC18 (50.8%) a* ***0.6 pwynt canran o leihad*** *o gymharu â Strategaeth a Ffefrir y fersiwn Adneuo Cyntaf o'r* CDLl diwygiedig (50.5%).

24. Yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022), gwnaethom nodi bod *"55% o'r cynnydd yn cael ei gyflawni trwy ymyrraeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hytrach nag o ganlyniad i'r Opsiwn Twf a Ffefrir, er ei bod hefyd yn rhesymol nodi bod ymyriadau polisi sydd wedi'u cynllunio i gadw neu gynyddu nifer y bobl ifanc yn debygol o gyfrannu at nifer uwch o ddisgyblion ysgol (a phobl ifanc ôl-15) sy'n gallu siarad Cymraeg ac felly rhoi hwb i'r gyfran gyffredinol."*

25. Gwnaethom nodi hefyd, yn seiliedig ar ddadansoddiad o amcangyfrifon mudo gros 2019/20, fod *"canran uchel o fewnfudwyr yn y blynyddoedd diwethaf yn deillio o bobl yn symud o siroedd cyfagos ac o fannau eraill yng Nghymru."* Pe byddai'r duedd hon yn parhau, gwnaethom nodi ei bod yn *"debyg y bydd canran yr aelwydydd lle bydd o leiaf un oedolyn a chyfran uchel o blant dibynnol yn gallu siarad Cymraeg, yn cynyddu dros amser".*

26. Yn ogystal ag asesu maint yr effaith, yr agwedd allweddol arall ar Asesu Risg yw pennu'r debygoliaeth y bydd digwyddiad. Yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru, gwnaethom nodi bod y dystiolaeth sy'n cefnogi'r maint hwn o ddigwyddiad (h.y. gostyngiad o 0.6%) yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau ac nad yw'n cael ei deall yn dda. Mae'r rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys profiad yn y gorffennol o'r nodweddion a'r newidiadau a ganfuwyd ar sail gwireddu'r Cynllun blaenorol, yn arbennig yn nhermau ffurfiant aelwydydd, twf mewn cyflogaeth a manteisio ar ddyraniadau tir ar gyfer tai.

27. I gloi, felly, gan nad yw'r dystiolaeth wedi'i datblygu, mae'n gymharol annhebygol ar hyn o bryd y caiff y senario uchod ei wireddu.

**Cyfrifiad 2021**

28. Mae Cyfrifiad 2021 yn cofnodi poblogaeth Sir Gaerfyrddin fel 187,897 ac amcangyfrifir bod 182,551 o'r rhain yn 3 oed a throsodd.[8] Mae Cyfrifiad 2021 yn cofnodi bod 72,838 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd - gostyngiad o 5,210 ers 2011.
29. Mae hyn yn cymharu â ffigur y taflwybr o 83,325 a ddefnyddir fel rhan o'r rhagdybiaeth ar gyfer cyflawni 95,608 erbyn 2033. Mae'r taflwybr yn tybio y byddai Sir Gaerfyrddin yn cynnal yr un lefel o ran ei chyfran o siaradwyr Cymraeg o gyfanswm Cymru o fewn yr un garfan oedran. Mae **Tabl 6** yn cymharu'r perfformiad yn ôl carfan oedran.

Tabl 6: Effaith data cyfrifiad 2021 ar dwf yn ôl y taflwybr yn nifer y siaradwyr Cymraeg, yn ôl carfan oedran

| | Cyfrifiad 2011 | Amcangyfrif 2018 | Cyfrifiad 2021 | Gwahaniaeth Gwirioneddol 2018 – 2021 | Cyfanswm a Ragwelir ar y Taflwybr 2033 | Bwlch i'w gau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3-15 | 15514 | 17686 | 15004 | -2682 | 19113 | 4109 |
| 16 – 64 | 43702 | 44516 | 39595 | -4921 | 46146 | 6551 |
| 65 neu drosodd | 18630 | 18878 | 17750 | -1128 | 20027 | 2277 |
| **Cyfanswm** | | | | | | **12937** |

Ffynhonnell Cyfrifiad SYG 2021

30. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn rhoi amcangyfrifon sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru sy'n 3 oed a throsodd yn ôl sgiliau iaith Gymraeg a gwlad enedigol a'u galluoedd iaith Gymraeg[9].

31. Mae **Tabl 7** yn crynhoi ac yn dadansoddi'r set ddata yn ôl sgiliau iaith Gymraeg y preswylydd arferol.

[8] Amcangyfrifir bod 1% o boblogaeth y sir yn byw o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a bod 1.2% o siaradwyr Cymraeg y sir yn byw o fewn yr un ardal.
[9] SYG (Mawrth 2023) https://api.beta.ons.gov.uk/v1/datasets/RM160/editions/2021/versions/1

## Tabl 7: Cyfrifiad 2021 Sgiliau Cymraeg yn ôl Gwlad Enedigol

| Gwlad Geni | Preswylwyr Arferol 3 + | Dim Sgiliau yn y Gymraeg | % | Yn gallu siarad Cymraeg i),iii) &iv) | % | Sgiliau Eraill v) & vi) | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru/Wales | 133725 | 46379 | 34.7% | 67396 | 50.4% | 16,985 | 12.7% |
| Lloegr | 37876 | 29538 | 78.0% | 4565 | 12.1% | 3,071 | 8.1% |
| Yr Alban | 1227 | 994 | 81.0% | 117 | 9.5% | 98 | 8.0% |
| Gogledd Iwerddon | 393 | 316 | 80.4% | 41 | 10.4% | 27 | 6.9% |
| Iwerddon | 514 | 387 | 75.3% | 58 | 11.3% | 56 | 10.9% |
| Ewrop arall | 5053 | 4370 | 86.5% | 360 | 7.1% | 263 | 5.2% |
| Yr Affrig | 927 | 798 | 86.1% | 66 | 7.1% | 54 | 5.8% |
| Y Dwyrain Canol ac Asia | 2136 | 1880 | 88.0% | 114 | 5.3% | 108 | 5.1% |
| Yr Americas | 553 | 429 | 77.6% | 72 | 13.0% | 41 | 7.4% |
| Awstralasia | 256 | 179 | 69.9% | 42 | 16.4% | 28 | 10.9% |
| Wedi eu geni tu allan i Gymru | 48935 | 38891 | 79.5% | 5435 | 11.1% | 3,746 | 7.7% |
| Cyfansymiau | 182660 | 85270 | 46.7% | 72831 | 39.9% | 20,731 | 11.3% |

Allwedd

| | |
|---|---|
| i) | Yn gallu, siarad, darllen ac ysgrifennu |
| ii) | Yn gallu Siarad, ond nid darllen nag ysgrifennu |
| iii) | Yn gallu siarad neu ddarllen ond nid ysgrifennu |
| iv) | Yn gallu siarad a gyda chyfuniad arall o sgiliau yn y Gymraeg |
| v) | Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig |
| vi) | Cyfuniad o sgiliau eraill yn y Gymraeg, ond nid siarad |

Ffynhonnell: SYG (Mawrth 2023)
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/methodologies/demographyandmigrationqualityinformationforcensus2021

32. Y negeseuon allweddol yw:

- O'r 133,725 o breswylwyr a anwyd yng Nghymru, nid oes gan dros draean (46,379 - 35%) unrhyw sgiliau yn y Gymraeg.
- O'r 48,935 o breswylwyr a anwyd y tu allan i Gymru, mae gan tua un o bob pump (19%) ryw gyfuniad o sgiliau Cymraeg, ac mae un o bob naw (11%) yn gallu siarad Cymraeg. O'r rhain:
    - O'r preswylwyr a anwyd yn Lloegr (37,876) mae tua un o bob wyth (4,565) yn gallu siarad Cymraeg ac mae 3,071 pellach yn meddu ar ryw gyfuniad arall o sgiliau Cymraeg.
    - O'r preswylwyr a anwyd yng ngweddill gwledydd Ynysoedd Prydain (2,134) mae tua un o bob deg (10.1%) yn gallu siarad Cymraeg ac mae un o bob deuddeg arall (8.5%) yn meddu ar ryw gyfuniad arall o sgiliau Cymraeg.

33. Mae'r SYG yn cynghori y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau gan y gall person ymddangos mewn mwy nag un categori yn dibynnu ar ba gyfuniad o sgiliau sydd ganddo.

34. Roedd yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) hefyd yn ystyried dadansoddiad data CYBLD hyd at 2019. Roedd hyn yn awgrymu cynnydd bach yn nifer y disgyblion 5-15 oed a oedd (fel yr adroddwyd gan rieni) yn gallu siarad Cymraeg (naill ai'n rhugl neu ddim yn rhugl) o 13,780 yn 2011 i 14,065 erbyn 2018. Mae'r data o flynyddoedd 2021 i 2023 yn awgrymu bod y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol i 18,075 (2021) ond wedi gostwng i 17,500 erbyn 2023.

**Effaith mudo net**

35. Mae'r Asesiad (2019) a'r Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) wedi elwa o ddata Cyfrifiad 2011, sydd wedi caniatáu dadansoddiad o nodweddion ieithyddol mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin, a adroddodd eu bod yn byw mewn cyfeiriad gwahanol 12 mis cyn hynny. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r data hwn wedi'i ryddhau o Gyfrifiad 2021 eto.

36. Awgrymodd adroddiad Turley, wrth ddadansoddi ffigurau mudo gros ar gyfer 2019/20, fod cyfran fawr o symudiadau yn digwydd gydag awdurdodau cyfagos. Yr eithriad i hyn yw'r nifer gymharol fawr o bobl ifanc 18 - 24 oed sy'n ail-leoli i Gaerdydd (yn bennaf ar gyfer addysg uwch neu addysg bellach). Nid yw'n hysbys a fydd nodweddion ieithyddol y carfanau hyn yn debyg neu'n wahanol i'r rhagdybiaethau a wnaed yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022).

37. Mae Adroddiad Turley (2023) wedi'i ddiweddaru yn awgrymu ei bod "yn ymddangos bod y mewnlif net cynyddol o rannau eraill o'r DU wedi cynnwys pobl o bob oed. Roedd y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed .... ac mae'n ymddangos fel pe bai'r newid wedi'i achosi gan lai o allfudo."[10] Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod symudiad mewnlif net o bobl o Abertawe i Sir Gaerfyrddin o tua 213 y flwyddyn a mewnlif net heb ei ddatgelu o Geredigion.

[10] Turley, op. Ffynhonnell Para. 5.4

38. Ar gyfer yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022), gwnaed y rhagdybiaethau canlynol o ran sgiliau ieithyddol mewnfudwyr ac allfudwyr yn seiliedig ar bobl 3+ oed a symudodd o/i Sir Gaerfyrddin flwyddyn cyn i ffigurau mudo 2019/20.

Tabl 8: Yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) Tabl A2.2-5: Amcangyfrif bras o effaith mudo net ar nifer y siaradwyr Cymraeg

| Amcangyfrif o Nodweddion Ieithyddol y Nifer Blynyddol o Fudwyr (gan ddefnyddio cymarebau trigolion oed 3+ a symudodd i/o Sir Gâr un flwyddyn ynghynt i ffigyrau Mudo Gros 2019/20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewn | | | Allan | | | Net |
| Grŵp Oedran | O weddill Cymru @33% | O weddill DG @15% | Amcangyfrif Siaradwyr Cymraeg | I Weddill Cymru @40% | I weddill DG @40% | Amcangyfrif | Siaradwyr Cymraeg |
| 3 - 15 | 145 | 36 | 181 | 138 | 45 | 183 | 2 |
| 16 - 60 | 932 | 302 | 1234 | 909 | 538 | 1446 | 213 |
| 60+ | 207 | 79 | 286 | 141 | 116 | 257 | -29 |
| Cyf. | 1284 | 417 | 1701 | 1188 | 699 | 1886 | 186 |

39. Wedyn, gwnaethom ddadansoddi'r goblygiadau ar gyfer y newidiadau i nifer y siaradwyr Cymraeg.

*“Mae dadansoddiad o’r ffigyrau mudo gros yn dangos bod cyfran sylweddol o fudo net yn nhermau Sir Gaerfyrddin (mudwyr i mewn ac allan) yn fewnol i Gymru.*

*Mae’r dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad Poblogaeth 2011 ar gyfer y bobl a symudodd o gyfeiriad y tu allan i’r Sir yn ystod y deuddeng mis blaenorol hefyd yn awgrymu bod cyfran sylweddol (tua thraean) o’r mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin o aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg.*

*Yn yr un modd, roedd gan tua un ym mhob chwe aelwyd (15%) o’r tu allan i Gymru o leiaf un oedolyn sy’n siarad Cymraeg.*

*Awgryma'r dadansoddiad, ar sail y cyfraddau mudo a adroddwyd yn 2019/20 a chanrannau'r rhai a symudodd naill ai i Sir Gaerfyrddin neu allan o'r sir yn ystod 12 mis ar adeg y Cyfrifiad ym mis Mawrth 2011, fod nifer net y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 186 y flwyddyn. Wrth gymhwyso hyn i weddill Cyfnod y Cynllun (13 blynedd) mae’n awgrymu y gallai nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu 2,418 o ganlyniad i fudo net.*

*Er nad yw canlyniadau yn y gorffennol, ynddynt eu hunain, yn gallu darogan canlyniadau yn y dyfodol, mae’r dystiolaeth a gyflwynir yn awgrymu bod mewnfudo gros yn debygol*

*o gynnwys cyfran sylweddol o aelwydydd lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg ac felly darparu seiliau gwell i gynllunio ar gyfer gwella bywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg.”*

40. Oni bai bod tablau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â galluoedd ieithyddol y bobl hynny a symudodd o gyfeiriad y tu allan o'r Sir yn ystod y 12 mis blaenorol yn cael eu cyhoeddi, neu hyd nes bod hynny'n digwydd, ni fydd yn bosibl diweddaru pa ragdybiaethau y dylid eu gwneud ynghylch cyfran aelwydydd mewnfudo ac allfudo i'r Sir sydd ag un oedolyn o leiaf sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y patrymau mudo ar gyfer aelwydydd a oedd yn byw mewn cyfeiriad gwahanol 12 mis cyn Diwrnod y Cyfrifiad yn rhoi syniad o lefel yr mewnlifiadau. Mae **Tabl 9** yn dadansoddi mewnlifiadau yn ôl grŵp oedran.


Tabl 9: Amcangyfrifon o Fewnfudo Net yn ôl Grŵp Oedran am 12 mis cyn Diwrnod Cyfrifiad 2021

| Oed | Wedi byw yn yr un cyferiad | Canran | Mewnfiad o rannau eraill o Sir Gâr | Canran | Mewnfiad o rannau eraill o Gymru | Canran | Mewnlifiad o rannau eraill o'r DG | Canran | Mewnlifiad o'r tu allan i'r DG | Canran | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed 5 - 15 | 18569 | | 1420 | | 280 | | 186 | | 37 | | |
| 16 - 64 | 105581 | | 6057 | | 2301 | | 1827 | | 459 | | |
| 65 a throsodd | 44003 | | 791 | | 275 | | 321 | | 76 | | |
| Cyfansymiau | 168153 | 92.3% | 8268 | 4.5% | 2856 | 1.6% | 2334 | 1.3% | 572 | 0.3% | 182183 |

Ffynhonnell: SYG (Mawrth 2023) Tabl Mudo yn ôl Oedran MIG014EW

41. Mae **Ffigur 4** hefyd yn rhoi mynegiant daearyddol o'r gwahanol lefelau o aelwydydd sy'n byw mewn cyfeiriad gwahanol yn y DU (gan gynnwys rhannau eraill o Sir Gaerfyrddin) ar lefel MSOA. Mae'r ardaloedd gwyrdd tywyll (lle mae symudiadau aelwydydd yn amrywio o 8 i 11.1%) yn cynnwys Caerfyrddin, Cynwyl Elfed, Llanfihangel-ar-arth a Llanybydder a Llanymddyfri a'u dalgylchoedd.

Ffigur 4:  Amcangyfrifon o gyfran y bobl oedd yn byw mewn cyfeiriad blaenorol yn y DU 12 mis cyn diwrnod Cyfrifiad 2021 (gan gynnwys cyfeiriadau yn Sir Gaerfyrddin)




Ffynhonnell y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 Mapiau Mudo Cyfrifiad

42. O gymharu â dwysedd siaradwyr Cymraeg fel y dangosir yn **Ffigur 1, Tabl 1** a'r dadansoddiad o newidiadau mewn dwysedd ers Cyfrifiad 2011, nid yw'n ymddangos bod y dystiolaeth yn awgrymu bod cydberthyniad daearyddol cryf rhwng lefel symudiadau aelwydydd am y flwyddyn rhwng 2019 a Mawrth 2020 a'r newidiadau deng mlynedd diwethaf mewn galluoedd ieithyddol rhwng y Cyfrifiadau.

# Tystiolaeth Arall

43. Ffactor arall sy'n cyfrannu at ddylanwad Opsiynau Strategaethau Twf aGofodol y CDLl yw'r berthynas rhwng cwblhau tai a gwerthu tai yn gyffredinol. Honnir yn aml bod maint y tir sy'n cael ei ryddhau ar gyfer tai yn flynyddol yn debygol o ddylanwadu ar faint y newid ieithyddol, yn enwedig ar lefel leol, ac mewn ardaloedd ieithyddol sensitif gan nad yw'r gymuned yn gallu amsugno effaith ieithyddol yr aelwydydd sy'n symud i mewn.

44. Mae **Tabl 10** yn atgynhyrchu'r gwerthiant eiddo preswyl blynyddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin am y cyfnod 2018/19 i 2022/23 ac yn ei gymharu â'r tai sydd wedi'u cwblhau

dros yr un cyfnod. Sylwer bod y ffigurau cwblhau ar gyfer 2021/22 yn cynnwys tai a gafodd eu cwblhau ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020 gan na chyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2019/20 oherwydd cyfyngiadau Covid.

Tabl 10: Cymhariaeth 5 mlynedd o Werthiannau Eiddo Preswyl a Thai a Gwblhawyd

| | Blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfanswm 5 ml. | Cyfartaledd y Flwyddyn |
| Gwerthiannau | 2853 | 2722 | 2520 | 3151 | 2191 | 13437 | 2687.4 |
| Tai a Gwblhawyd | 277 | | 1213 | 490 | 229 | 2209 | 441.8 |

Ffynonellau Gwerthiannau SYG (2023) Ystadegau Prisiau Tai ar gyfer Ardaloedd Bychain; Tai a Gwblhawyd - Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl Cyngor Sir Caerfyrddin

45. Mae **Tabl 10** yn dangos mai 13,437 oedd cyfanswm y gwerthiannau eiddo preswyl ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd hyd at fis Mawrth 2013. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 2,209 o dai a cwblhawyd ar gyfer y cyfnod hwn, gan wneud cymhareb o dros chwech rhwng gwerthiannau a thai a gwblhawyd. Mae'r gyfradd adeiladu cyfartalog arfaethedig ar gyfer y CDLl diwygiedig o 588 yn debygol o gynyddu'r gyfradd cwblhau dros 20% ond bydd yn dal i gynrychioli 22% o gyfartaledd hanesyddol gwerthiannau eiddo preswyl.

## Adolygiad o'r Rhagdybiaethau ar gyfer y Strategaeth *Ofodol* a Ffefrir

46. Mae'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir ddiwygiedig yn mabwysiadu opsiwn hybrid a nodwyd fel 'Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy'. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn nodi y "*Byddai'r rhan fwyaf o'r twf yn canolbwyntio ar y tair ardal ganlynol: Caerfyrddin a'r ardal gyfagos; Llain Arfordirol Llanelli; ac ardal Rhydaman / Cross Hands*." Mae'r opsiwn yn "*adeiladu ar Opsiwn Strategol 4 drwy gadw dull sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr aneddiadau .... ond yn ceisio adnabod ac adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd y Fargen Ddinesig a chyfleoedd economaidd eraill.... Bydd hefyd yn ceisio darparu cyfleoedd i ardaloedd gwledig.”* [11]

[11] CDLl Diwygiedig Adneuo Drafft (2023), para. 8.20

47. Mae'r Strategaeth Ofodol yn gosod hierarchaeth pedair haen o aneddiadau o fewn fframwaith aneddiadau sydd wedi'i grwpio o dan chwe chlwstwr. Mae'r clystyrau hyn a'r dosbarthiad twf yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy ond byddant "*yn ceisio cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad pob anheddiad yn ei glwstwr penodol. Cydnabyddir rôl aneddiadau llai yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau twf lleol a chynaliadwy.”*

48. Ceisiodd yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) nodi a fyddai'r opsiwn hybrid, mewn perthynas â strategaeth bresennol y CDLl (Opsiwn CDLl Presennol Opsiwn 1) a strategaeth wreiddiol y CDLl Diwygiedig, yn helpu neu'n rhwystro gallu Ardal yr 2il CDLl Diwygiedig i gyrraedd y targed taflwybr o 95,609. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad bod posibilrwydd realistig (tebygolrwydd o rhwng 55 a 75%) o'r strategaeth yn seiliedig ar yr amcanestyniad tuedd 10 mlynedd sy'n darparu mân fanteision cadarnhaol i gyflawni'r taflwybr.

49. Mae **Tabl 11** yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer pob clwstwr o gymharu â'r sefyllfa yn 2011 a'r rhagdybiaeth a wnaed ar gyfer y rhagdybiaethau a wnaed ynghylch llinell sylfaen 2018 ar gyfer Asesiad 2022.

Tabl 11: Amcangyfrif o nifer y siaradwyr Cymraeg fesul Clwstwr a Newidiadau ers Cyfrifiad 2011

| Clwstwr | Nifer o Siaradwyr 2011 | Nifer o Siaradwyr 2021 | Newid | Newid % | Asesiad 2022 o ragdybiaeth llinell sylfaen 2018 | Gwahaniaeth (2021 yn erbyn 2018) | % Ymwahaniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwstwr 1 | 15191 | 14851 | -340 | -0.02 | 15597 | -746 | -4.8% |
| Clwstwr 2 | 22736 | 20273 | -2463 | -10.83 | 23344 | -3,071 | -13.2% |
| Clwstwr 3 | 24069 | 22713 | -1356 | -5.97 | 24712 | -1,999 | -8.1% |
| Clwstwr 4 | 6745 | 5384 | -1361 | -20.17 | 6925 | -1,361 | -19.7% |
| Clwstwr 5 | 5472 | 5373 | -99 | -0.18 | 4869 | -504 | -10.4% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwstwr 6 | 4008 | 4258 | +250 | +6.23 | 4115 | +143 | +3.5% |
| Cyfanswm | 78221 | 72852 | -5520 | -7.12 | 79562 | -7,681 | -9.7% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011 ac amcanestyniadau'r awdur ei hun

50. O ran y sefyllfa yn 2011, mae data cyfrifiad 2021 a gyflwynwyd yn **Nhabl 11** yn dangos y gostyngiadau mwyaf yng nghlwstwr 4 (Dyffryn Teifi) a Llanelli a Gwendraeth Isaf. Mae Clwstwr 1 (Caerfyrddin) a Chlwstwr 5 (Tywi Uchaf) yn dangos gostyngiadau cymharol bach. Mae Clwstwr 3 (Aman a Gwendraeth Uchaf), sy'n parhau i fod â'r nifer a'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, er hynny'n dangos bod gostyngiad o bron i 6% wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae clwstwr 6 (Gorllewin Sir Gâr) yn dangos cynnydd o 6% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae dadansoddiad pellach o'r ffigurau ar gyfer y Clwstwr hwn yn amcangyfrif bod gostyngiad wedi bod yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg o 40.4% i 38.9%.

51. Nid yw'n ymddangos bod patrwm adnabyddadwy i'r gwahaniaethau yn ofodol. Mae'r clystyrau mwy trefol a mwy gwledig yn dangos ymwahaniadau mewn newidiadau canrannau. Mae clystyrau dwysedd uwch (Aman a Gwendraeth Uchaf a Thywi) a'r clystyrau dwysedd canolig eraill yn amrywio yn eu perfformiadau yn 2021.

52. Dangosodd dadansoddiad blaenorol o'r newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 gydberthynas wan ar lefel LSOA rhwng datblygiad a pherfformiad y Gymraeg.

53. O ran rhagdybiaethau llinell sylfaen 2018, mae Tabl 11 yn dangos bod y ymwahaniad rhwng y gwahaniaethau o ran canran rhwng llinell sylfaen 2018 a chanlyniadau gwirioneddol 2021 yn amrywio o +3.5% (yng Nghlwstwr 6) i -19.7% (yng Nghlwstwr 4). Gwelir yr ymwahaniad mwyaf yn rhifiadol rhwng llinell sylfaen 2018 a chanlyniadau Cyfrifiad 2021 yng nghlwstwr Llanelli a Gwendraeth Isaf (-3,701) a gwelir yr ymwahaniad mwyaf yn gyfrannol yng Nghlwstwr 4 (Dyffryn Teifi).

54. Rhagdybiaeth allweddol o'r model a ddefnyddir i ddyrannu siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol rhwng clystyrau yw y bydd y cynnydd mewn aelwydydd ar gyfer pob clwstwr yn adlewyrchu'r rhagdybiaethau a wnaed ar y canlynol:

- Mae cyfran y boblogaeth 3 oed a throsodd yn aros yr un fath dros y cyfnod hyd at 2033 sef 97.2%.
- Mae maint cyfartalog yr aelwyd yn parhau i fod yn 2.26.
- Mae'r berthynas rhwng y cynnydd yn nifer yr aelwydydd fesul clwstwr yn adlewyrchu cyfran y dyraniadau a wnaed i bob clwstwr.
- Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn ôl y taflwybr ar gyfer pob clwstwr erbyn 2033 yn adlewyrchu'r gyfran a gofnodwyd yn llinell sylfaen Cyfrifiad 2011.

## Sut fyddai hyn wedi effeithio ar Asesiad 2022 ac a fyddai'r canlyniad yn wahanol?

55. Mae'r Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn seiliedig ar y cwestiwn allweddol "cynaliadwyedd" *"A fydd y CDLl yn annog twf y Gymraeg a'i diwylliant?"* Hynny yw, a fydd naill ai'r strategaethau twf a'r strategaethau gofodol sy'n cael eu mabwysiadu, o gymharu â'r strategaethau "Busnes Fel Arfer" (h.y. y CDLl presennol), yn helpu neu'n rhwystro twf y Gymraeg a'i diwylliant.

56. Yn yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022), daethom i'r casgliad y gallai'r strategaeth twf a ffefrir (yn seiliedig ar amcanestyniad tuedd deng mlynedd ac yn cynnwys rhagdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau, mudo mewnol net a mudo rhyngwladol) gael posibilrwydd realistig o gael mân effaith andwyol ar amcan y taflwybr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi hefyd, heb dystiolaeth bellach a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffurfiant aelwydydd, twf mewn cyflogaeth a manteisio ar ddyraniadau tir ar gyfer tai a newidiadau mewn siaradwyr Cymraeg newydd, fod lefel isel o hyder yn y rhagfynegiad o faint yr effaith.

57. Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn awgrymu'n gryf na chefnogir rhagdybiaethau sylfaenol yr Asesiad wedi'i ddiweddaru (2022) mewn perthynas â thwf siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun ers 2011. Fodd bynnag, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn awgrymu bod twf wedi bod yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ar lefel Genedlaethol o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng canlyniadau

cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac maent wrthi'n cynnal Ymchwil i ddeall ffynonellau'r gwahaniaethau yn well.

58. Mae data CYBLD ar gyfer Ionawr 2022 hefyd yn awgrymu bod cyfran y disgyblion 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r gyfran a gofnodwyd yn y Cyfrifiad.

59. Mae model Taflwybr Cymraeg 2050 a ddefnyddir i asesu canlyniad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y strategaeth twf a ffefrir yn seiliedig ar Brif Amcanestyniad Amrywiolion Poblogaeth Llywodraeth Cymru 2014. Heb fodel taflwybr Cymraeg 2050 wedi'i ddiweddaru, mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch a fyddai maint yr effaith a aseswyd o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Strategaeth Twf a Ffefrir yr 2il CDLl Diwygiedig yn wahanol (o gymharu â'r Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLl presennol (Busnes fel Arfer)). Fodd bynnag, mae gennym lai o hyder yn y tebygolrwydd o ganlyniad. O fewn y Matrics Risg, o gofio bod ein lefel hyder eisoes ar ben isaf yr ystod bedair graddfa, ni fyddai hyn wedi effeithio ar ein sgôr.

60. Er gwybodaeth, mae Ffigur 5 yn atgynhyrchu sgôr yr Asesiad wedi'i diweddaru (2022) ar gyfer y Strategaeth Twf a Ffefrir.

Ffigur 5: Matrics a Sgôr ar gyfer Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLl Diwygiedig Adneuo drafft

| MATRICS RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG<br>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR<br>Y STRATEGAETH DŴF A FFEFRIR | | | | | GRADDFA'R EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cadarnhaol Mawr | Cadarnhaol Bach | Negyddol Bach | Negyddol Mawr |
| | | | Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy | | Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r taflwybr | Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r taflwybr | Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r taflwybr | Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r taflwybr |
| | | | | | Uchel | Isel | Isel | Uchel |
| | **Tebygolrwydd** | **Amledd** | | **Sgôr** | **2** | **1** | **-1** | **-2** |
| TEBYGOLIAETH | Mae profiad yn dangos fod y tŵf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Debygol Iawn | 4 | **8** | **4** | **-4** | **-8** |
| | Mae profiad yn dangos fod y tŵf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5 - 7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Debygol | 3 | **6** | **3** | **-3** | **-6** |
| | Mae profiad yn dangos fod y tŵf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3- 4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Bosibl | 2 | **4** | **2** | **-2** | **-4** |
| | Mae profiad yn dangos fod y tŵf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1- 2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Annhebygol Iawn | 1 | **2** | **1** | **-1** | **-2** |

Ffynhonnell: Iaith Cyf. a BURUM (Rhagfyr 2022) Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 Ail Fersiwn Adneuo Drafft o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

61. Gellir crynhoi ein dadansoddiad o effaith  Strategaeth Ofodol a Ffefrir y CDLl diwygiedig fel un sy'n seiliedig ar ddosrannu twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg i bob clwstwr yn ôl ein hamcangyfrif o gyfran y preswylwyr arferol 3 oed a throsodd ar gyfer llinell sylfaen 2018 a dosrannu'r dyraniadau tai a gynigir i bob clwstwr yn yr 2il CDLl Diwygiedig Adneuo Drafft a thybio twf cyfrannol tebyg ym mhob clwstwr. Wedyn cymharwyd y prif ddadansoddiad effaith hyn â'r hyn a allai fod wedi digwydd o dan Senario Strategaeth Ofodol y CDLl1 presennol (Busnes fel Arfer) gan dybio dosbarthiad cyflogaeth a thai sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol ym mhob ardal glwstwr.[12]

62. O ran effaith y Strategaeth Ofodol bresennol (Busnes Fel Arfer) ar y Gymraeg, daethom i'r casgliad y byddai Strategaeth Ofodol yr 2il CDLl Diwygiedig yn cael mân effaith gadarnhaol (+1). Gwnaethom nodi cafeat ar ein sgôr ynghylch yr ansicrwydd o ran y diffyg amcanestyniadau poblogaeth ar lefel is na sir a'r diffyg data presennol sydd ar gael ar dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a phatrymau mudo gros sydd ar gael ar lefel clwstwr a'r rhagdybiaeth y byddai'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl y taflwybr yn digwydd yn gymesur â'r preswylwyr arferol 3+ oed ar gyfer pob clwstwr yn ôl amcangyfrifon 2018.

63. Mae'r lefel isel o debygolrwydd a roddir yn y Matrics Risg yn adlewyrchu'r ansicrwydd uchod.

64. Heb wybodaeth ychwanegol am effaith ddaearyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a dealltwriaeth well o effaith ieithyddol patrymau gofodol mudo gros, ynghyd â model Taflwybr Cymraeg 2050 wedi'i ddiweddaru, mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch a fyddai maint yr effaith a aseswyd o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Strategaeth Twf a Ffefrir yr 2il CDLl Diwygiedig yn wahanol (o gymharu â'r Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLl presennol (Busnes fel Arfer)). Fodd bynnag, mae gennym yr un lefel isel i hyder yn y tebygolrwydd o ganlyniad. O fewn y Matrics Risg, o gofio bod ein lefel hyder eisoes ar ben isaf yr ystod bedair graddfa, ni fyddai hyn wedi effeithio ar ein sgôr.

---

[12]Gweler Iaith Cyf. a BURUM (Rhagfyr 2022) Diweddariad ar yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, gweler Adran 2.4.6 i weld trafodaeth fwy manwl).

65. Mae **Ffigur 6** yn atgynhyrchu sgôr yr Asesiad wedi'i diweddaru (2022) ar gyfer y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.

## Ffigur 6: Matrics a Sgôr ar gyfer y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar gyfer yr 2il CDLl Diwygiedig

| MATRICS RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG<br>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR<br>Y STRATEGAETH OFODOL A FFEFRIR | | | | | GRADDFA'R EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cadarnhaol Mawr | Cadarnhaol Bach | Negyddol Bach | Negyddol Mawr |
| | | | Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy | | Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r taflwybr | Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r taflwybr | Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r taflwybr | Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r taflwybr |
| | | | | | Uchel | Isel | Isel | Uchel |
| | Tebygolrwydd | Amledd | | Sgôr | 2 | 1 | -1 | -2 |
| TEBYGOLIAETH | Mae profiad yn dangos fod y twf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Debygol Iawn | 4 | 8 | 4 | -4 | -8 |
| | Mae profiad yn dangos fod y twf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5 - 7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Debygol | 3 | 6 | 3 | -3 | -6 |
| | Mae profiad yn dangos fod y twf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3- 4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Bosibl | 2 | 4 | 2 | -2 | -4 |
| | Mae profiad yn dangos fod y twf/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1- 2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol | Yn Annhebygol Iawn | 1 | 2 | 1 | -1 | -2 |

Ffynhonnell: Iaith Cyf. a BURUM (Rhagfyr 2022) Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 Ail Fersiwn Adneuo Drafft o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

# Goblygiadau i statws y Sir fel Ardal Lle Mae Sensitifrwydd a Phwysigrwydd Ieithyddol

66. Mabwysiadodd y Cyngor y cynnig canlynol yn y cyfarfod o’r Cyngor llawn ar 10 Gorffennaf 2019:

*“Mae'r Cyngor hwn yn credu bod Sir Gaerfyrddin gyfan yn 'ardal lle mae sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol' a bod y system gynllunio'n cyflawni rôl hanfodol o ran cefnogi'r Gymraeg ledled y sir. I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai'r iaith fod yn Ystyriaeth Gynllunio Berthnasol yn yr holl geisiadau ar gyfer datblygiad o bum tŷ neu ragor mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad o ddeg tŷ neu ragor mewn ardaloedd trefol ym mhob cymuned, beth bynnag yw canran y siaradwyr Cymraeg.*

*Rydym yn parhau o'r farn bod y polisi hwn yn angenrheidiol a bod cyfiawnhad drosto oherwydd:*

- *yr angen i fynd i'r afael â'r lleihad mawr ac annisgwyl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Cyfrifiad 2011*
- *mae'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*
- *mae'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, yn enwedig "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg..."*

67. Gwnaed y penderfyniad hwn cyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer y Gymraeg, a welodd ostyngiad sylweddol ac annisgwyl unwaith eto yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

68. Ers mis Gorffennaf 2019, bu tri newid sylweddol i'r cyd-destun polisi cenedlaethol:

- Cyhoeddi Rhifynnau 11 a 12 Polisi Cynllunio Cymru
- cyhoeddi Cymru'r Dyfodol 2040, a
- sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

## Polisi Cynllunio Cymru

69. Cyhoeddwyd diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Chwefror 2021 ac ym mis Chwefror 2024. Nid yw'r naill rifyn na'r llall wedi gweld unrhyw newidiadau i adrannau 3.25 - 3.29 ac mae'r cyngor yn aros yr un fath o ran yr opsiwn i fynnu Asesiad o'r Effaith Ieithyddol ar gyfer pob datblygiad 'ar hap' mawr. Nid yw TAN 20 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) na'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020) wedi'u diweddaru ac maent yn cynnig yr opsiwn i awdurdodau cynllunio lleol nodi meysydd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd ieithyddol wrth baratoi a/neu adolygu eu cynlluniau datblygu lleol.

## Cymru'r Dyfodol 2040

70. Cafodd Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Er nad yw'n cynnwys polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mae ei Fframwaith Canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn cynnwys canlyniad sy'n ceisio gwireddu "Cymru lle mae pobl yn byw...mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu." Mae hefyd yn cydnabod y "bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu." Mae'n ychwanegu "Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd yn rym cadarnhaol tuag at annog creu seilwaith addysg a chymdeithasol i alluogi'r iaith i ddatblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau."

## Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

71. Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 i nodi a gwneud argymhellion polisi cyhoeddus gyda'r nod o gryfhau cymunedau

Cymraeg. Yn ei phapur sefyllfa cychwynnol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, nododd yr angen i ddynodi ardaloedd o bwysigrwydd ieithyddol (dwysedd uwch) ac awgrymodd gynllunio defnydd tir fel un maes polisi a allai elwa o ymyrraeth polisi o'r fath. Disgwylir i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Awst 2024.

72. Yn ein barn ni, nid oes gan yr un o'r newidiadau i'r cyd-destun polisi a nodwyd uchod unrhyw oblygiadau sylweddol i'r sir gyfan gael ei dynodi'n *'ardal o sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol'*.

## Canlyniadau Cyfrifiad 2021

73. Yn ogystal, rydym hefyd wedi ystyried a oes gan ganlyniadau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg unrhyw oblygiadau ar gyfer penderfyniad Gorffennaf 2019.

74. Er bod 103 o'r 111 LSOA wedi gweld gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, mae'r data ar lefel ward etholiadol yn dangos bod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg ym mhob ward, yn amrywio o ychydig dros 500 yn Nhalacharn i dros 4,000 yn wardiau tref Caerfyrddin cyfun.

75. Rydym o'r farn bod y rhesymeg dros ddynodi'r sir gyfan yn 'ardal o sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol' yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn enwedig yng nghyd-destun cyfeiriad strategol cyffredinol y Cyngor, gan gynnwys ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i Gynllun Hybu'r Gymraeg.